**COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD AR DDYDD IAU, 16 MEHEFIN 2016**

PRESENNOL
Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir MC Alexander, D Bailey, G R Banks, R G Brown, J H Brunt, L V Corfield, K W Curry, M J B Davies, S C Davies, L R E Davies, E R Davies, S Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, R I George, J Gibson-Watt, M R Harris, A Holloway, G Hopkins, E A Jones, D C Jones, M J Jones, E M Jones, G M Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, H Lewis, MC Mackenzie, P J Medlicott, DW Meredith, ET Morgan, G Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, T J Van-Rees, G P Vaughan, J M Williams, G I S Williams ac E A York

Ar ran y Cyngor, fe wnaeth y Cadeirydd gondemnio'r ymosodiad ar glwb nos hoyw yn Orlando, Florida gan fynegi cydymdeimlad â theuluoedd y sawl a laddwyd neu anafwyd yn y digwyddiad.

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC64- 2016 |
|---|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir PJ Ashton, GJ Bowker, P Harris, SM Hayes, JC Holmes, DR Jones, Eldrydd Jones, PE Lewis, DJ Mayor, S McNicholas, RH Mills, JG Shearer, RG Thomas, TG Turner, DH Williams a SL Williams.

**Cwestiwn Brys**

Fe wnaeth y Cadeirydd gynghori fod yr Aelod Portffolio Cyllid wedi cytuno i ateb cwestiwn brys oddi wrth y Cynghorydd Sir Gary Price ar yr ymdrech i dorri i mewn i adeilad Southfields. Esboniodd yr Aelod Portffolio fod y papurau blwch pleidleisio a ganfuwyd yn deillio o etholiadau Cynulliad Cymru 2011 ac nad oeddynt yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â refferendwm yr Undeb Ewropeaidd. Dylai'r papurau fod wedi cael eu cadw am flwyddyn ac yna eu dinistrio. Mae'r papurau pleidleisio wedi cael eu dinistrio ers hynny a dywedodd yr Aelod Portffolio y byddai'n edrych ar y gweithdrefnau gyda swyddogion. Cyhoeddodd ymddiheuriad cyhoeddus a dywedodd hefyd fod y Cyngor wedi adrodd ei hunan dan y Ddeddf Diogelu Data. Cofnododd y Cynghorydd Price ei ddiolch i'r staff Etholiadau a dywedodd nad oedd unrhyw fai wedi'i neilltuo arnynt hwy. Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Price, dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn derbyn cyfrifoldeb a'i fod yn hapus i gynnig diweddariad pellach i Aelodau.

| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANT | CC65- 2016 |
|---|---|---|

Dywedodd y Swyddog Monitro fod goddefeb wedi'i chyflwyno i Gynghorwyr a oedd yn llywodraethwyr ysgol i siarad a phleidleisio ar yr amod nad oedd eu buddiant yn un ariannol. Datganodd y Cynghorydd Sir JH Brunt fod ganddo fuddiant personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot.

| 3. | RHYBUDD O GYNNIG ODDI WRTH Y CYNGHORYDD SIR GARY PRICE A'R CYNGHORYDD SIR ALED DAVIES | CC66- 2016 |
|---|---|---|

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir GD Price ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir AW Davies:

"Mae a bydd Cabinet Cyngor Sir Powys yn gwneud newidiadau arwyddocaol i ddarparu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd o fewn y Sir.

Mae trigolion wedi cysylltu â nifer o Aelodau'r Cyngor gan fynegi pryderon mai'r Cabinet (uchafswm o 10 aelod) yw'r unig Gynghorwyr sydd ynghlwm â gwneud y penderfyniad terfynol am ddyfodol ysgolion Powys. Mae'r penderfyniadau hyn o'r fath arwyddocâd i Bowys fel ei bod hi'n bwysig y dylai'r Cyngor cyfan rannu'r cyfrifoldeb hwnnw.

Mae'r Cyngor felly yn galw am ddiwygio'r cyfansoddiad fel mater o frys er mwyn caniatáu i holl aelodau'r Cyngor wneud yr holl benderfyniadau o ran cynigion ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd dan Bolisi Trawsnewid Ysgolion y Cyngor a Pholisi Ad-drefnu Ysgolion 2015".

Esboniodd y Swyddog Monitro pam fod ail gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Liam Fitzpatrick wedi cael ei wrthod.

Wrth gyflwyno'r cynnig, dadleuodd y Cynghorydd Price fod yr holl Gynghorwyr wedi'u hethol i wneud penderfyniadau ar ran eu cymunedau a bod penderfyniadau ar ad-drefnu ysgolion cynradd ac uwchradd o'r fath bwysigrwydd fel y dylid eu gwneud gan yr holl aelodau ac nid gan y Cabinet yn unig.

Cynigiwyd diwygiad gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir William Powell, gan ychwanegu'r geiriau canlynol i baragraff 2 o'r rhybudd o gynnig ar ôl y gair "cyfrifoldeb". "Yn ychwanegol at hyn, mae'r Ysgrifennydd Addysg o fewn Cabinet Llywodraeth Cymru sydd newydd ei benodi wedi rhoi arwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi ysgolion gwledig, nad oes gan Gymru ar hyn o bryd" a dileu paragraff 3. Dylid ychwanegu'r brawddegau canlynol yn lle paragraff 2: "O ystyried yr uchod, mae'r Cyngor yn galw am foratoriwm ar unrhyw benderfyniadau pellach mewn perthynas ag ysgolion cynradd ac uwchradd dan Bolisi Trawsnewid Ysgolion y Cyngor, yn ddibynnol ar gyfarwyddyd a datblygiadau polisi pellach gan Lywodraeth Cymru."

Fe wnaeth y Cynghorydd Gibson-Watt ddadlau fod y cyhoedd wedi colli hyder yn y broses ad-drefnu ysgolion ac y byddai'n ddoeth aros tan fod yr Ysgrifennydd Addysg o fewn y Cabinet wedi cynhyrchu polisi ysgolion gwledig.

Cynigiwyd diwygiad gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard, er mwyn dileu'r gair "Cynradd" o'r rhybudd o gynnig.

Cynigiwyd diwygiad gan y Cynghorydd Sir David Price, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams, "Fod y Cyngor llawn yn cael y cyfle i gwrdd a thrafod argymhellion sy'n ymwneud ag ysgolion uwchradd a effeithir gan bolisi trawsnewid y Cyngor, i fynegi barn cyn y gwneir penderfyniadau gan y Cabinet".

Mynegodd nifer o Gynghorwyr bryder am unrhyw oedi pellach i'r broses ad-drefnu ysgolion.

Gohiriwyd y Cyngor er mwyn i'r grwpiau gwleidyddol ystyried y diwygiadau gan ailymgynnull 11.30 a.m.

Galwodd mwy na 10 aelod oedd yn bresennol am bleidlais oedd wedi'i chofnodi.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir William Powell.

Cafodd y diwygiad ei golli gan 12 pleidlais i 43 gyda 1 Cynghorydd yn ymatal rhag pleidleisio. https://powysintranet.moderngov.co.uk/documents/b9031/2016-06-16%20Voting%20Results%2016th-Jun-2016%2010.00%20County%20Council.pdf?T=9

Pleidleisiodd y Cyngor ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Phil Pritchard.

Cafodd y diwygiad ei golli gan 20 pleidlais i 33 gyda 3 Cynghorydd yn ymatal rhag pleidleisio.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir David Price, ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Michael Williams.

Cafodd y diwygiad ei basio gan 28 pleidlais i 27 gan ddod yn gynnig sylweddol https://powysintranet.moderngov.co.uk/documents/b9031/2016-06-16%20Voting%20Results%2016th-Jun-2016%2010.00%20County%20Council.pdf?T=9

Pleidleisiodd y Cyngor ar y cynnig sylweddol a chafodd ei basio gan 38 pleidlais i 10 gyda 2 Gynghorydd yn ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Cyngor llawn gael y cyfle i gwrdd a thrafod argymhellion sy'n ymwneud ag ysgolion uwchradd a effeithir gan bolisi trawsnewid y Cyngor, i fynegi barn cyn y gwneir penderfyniadau gan y Cabinet.**

**Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)**